Sut i gynnal
# Lleoliad Myfyrwyr Seicoleg




canllaw cyfeirio

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD



# **Llu o ddoniau,** sy’n barod amdani

## Os yw’ch sefydliad chi am groesawu doniau newydd, mae gennym yr ateb perffaith – cynigiwch leoliad gwaith seicoleg. Mae’n syml.

Rydych chi’n agor eich drysau i fyfyriwr seicoleg amryddawn o safon uchel am gyfnod penodol o amser. Byddan nhw’n atoch yn meddu ar sgiliau delfrydol, y wybodaeth academaidd ddiweddaraf, a’r brwdfrydedd i gefnogi eich sefydliad mewn ystod o ffyrdd.

Yn eu tro, byddan nhw’n ennill profiad gwerthfawr yn y swydd i wella eu rhagolygon gyrfa wrth iddyn nhw edrych tua’r dyfodol. Mae’n drefniant dwyochrog gwych.

Er bod llawer o’n myfyrwyr ar ddechrau eu gyrfa broffesiynol, mae gan eraill gyfoeth o brofiad.

Ac mae pob un wedi derbyn llawer o hyfforddiant ar ôl cael lle ar ein rhaglenni BSc neu MSc Seicoleg sy’n hynod gystadleuol.

# 10

**Rydyn ni’n falch o fod ymhlith y 10 prifysgol orau ar gyfer Seicoleg ar draws gwledydd Prydain* ac mae ein myfyrwyr yn awyddus i ddangos eu doniau, eu hymrwymiad a’u dyfeisgarwch pan fyddwch chi’n cynnig lle iddynt wrth eich bwrdd.**

*Complete University Guide, 2024

# Mae dros 200 o sefydliadau wedi elwa ar groesawu myfyriwr o Brifysgol Caerdydd ar leoliad gyda nhw. Gallwch chi ymuno â nhw.

I ddysgu mwy am ddod yn ddarparwr lleoliad gwaith seicoleg, darllenwch y canllaw byr hwn. Mae'n egluro'r manteision i'ch sefydliad, pwyntiau pwysig i'w hystyried, a'r camau syml sydd angen i chi eu cymryd.

I ddod yn ddarparwr lleoliad myfyrwyr seicoleg neu i ddysgu mwy, cysylltwch â'n Tîm Lleoliadau Gwaith pwrpasol drwy anfon e-bost i:

**psych-placement@caerdydd.ac.uk**

Byddwn ni bob amser yn falch o glywed gennych.

## Cynnwys


**04** Y buddion i chi

**06** Y cyfraniad bydd ein myfyrwyr yn ei wneud

**07** Yr effaith byddwch chi'n ei chael

**08** Gair gan ein darparwyr lleoliadau

**10** Ymarferoldeb darparu lleoliad

**14** Y broses ymgeisio a dethol

**15** Y camau nesaf

# Y buddion i chi

Rydyn ni'n cydweithio gyda sefydliadau tebyg i'ch un chi ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

**Pan fyddwch chi'n darparu lleoliad gwaith, byddwch chi'n ennill llawer. Bydd gennych fynediad at:**

### Y doniau disgleiriaf

Rydyn ni'n denu rhai o'r meddyliau gorau i'n rhaglenni seicoleg, a bydd yr unigolion dawnus, gwybodus a brwdfrydig hyn ar gael i chi pan fyddwch chi'n darparu lleoliad gwaith iddyn nhw.

### Aelodau tîm ymroddedig

Mae ein myfyrwyr yn awyddus i gymhwyso eu dealltwriaeth ddamcaniaethol i leoliad ymarferol, gan eu gwneud nhw'n ased gwirioneddol. O gynnal ymchwil gadarn gan ddefnyddio'r dulliau diweddaraf, i ddylunio ymyriadau arloesol a chefnogi ochr weithredol eich gwaith, maen nhw'n barod i dorchi llewys a chyfrannu'n ystyrlon i'ch nodau.

### Datryswyr problemau arloesol

Gall croesawu myfyriwr ddod ag egni newydd i'ch tîm, gan roi hwb i brosiectau pwysig a mentrau sydd wedi arafu. Mae ein myfyrwyr yn cael eu hyfforddi i feddwl yn feirniadol ac yn ddadansoddol, ac felly maen nhw'n gallu darganfod datrysiadau yn fedrus, gan gynnig safbwynt newydd i'ch gwaith.

### Cydweithwyr creadigol

Mae ein myfyrwyr yn gwbl barod i weithio'n annibynnol ac yn gydweithredol, gan gynnig eu mewnwelediad, eu syniadau newydd, a'u dulliau creadigol.

### Cyfranwyr sy'n deall ystadegau

Gyda'u sgiliau dadansoddi ystadegol a rhifedd gwych, gall ein myfyrwyr gynnig cefnogaeth i rannau amrywiol o'ch sefydliad a fyddai'n elwa ar yr arbenigedd hwn.

**Ac nid dyna'r cyfan...**

> **Roedd y myfyrwyr oedd gyda ni ar leoliad yn broffesiynol ac yn barod i gynorthwyo gydag amrywiaeth o dasgau. Roedden ganddyn nhw ystod amgen o brofiad i'w chynnig, oedd yn ddefnyddiol i ni wella llesiant a dysgu ein disgyblion.**
>
> **Cris Evans**
> Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd



**Mae darparu lleoliad hefyd yn golygu y bydd modd i chi:**

- Ehangu eich tîm drwy groesawu myfyrwyr dawnus.
- Cynnig cyfleoedd rheoli llinell, datblygu staff a mentora i'ch staff presennol.
- Cael mynediad at yr ymchwil a'r canfyddiadau academaidd diweddaraf drwy eich perthynas gyda'n myfyrwyr ac Ysgol Seicoleg Prifysgol Caerdydd.
- Meithrin perthnasau cryf gyda gweithlu'r dyfodol (mae llawer o'n myfyrwyr wedi cael cynnig cyflogaeth o ganlyniad uniongyrchol i'w lleoliad).

# **Y cyfraniad y bydd ein** myfyrwyr yn ei wneud

## Er bod y buddion i'ch sefydliad yn helaeth, bydd darparu lleoliad yn cynnig cyfle i chi roi profiad i fyfyrwyr yn y byd go iawn mewn swyddi neu leoliadau sy'n ymwneud â seicoleg.

Dyma eu cyfle nhw i ddangos eu doniau – maen nhw'n awyddus i ddangos beth allan nhw ei wneud, yn gyfnewid am y cyfle gwerthfawr y byddwch chi'n ei roi iddyn nhw.

Gyda hynny mewn cof, dylech ystyried y rôl y byddwch chi'n ei chynnig i fyfyriwr ar leoliad, fel bod eu hamser gyda chi yn cynnig budd i bawb.

Dyma'r math o dasgau gwerthfawr a defnyddiol y gallai ein myfyrwyr eu gwneud pan fyddan nhw o dan eich adain:

**Ro'n i ar leoliad yn sector y cyfryngau, cyfathrebu a hysbysebu brand gydag Ipsos MORI – asiantaeth flaenllaw ym maes ymchwil y farchnad.** Cyfrannais at amrywiaeth o brosiectau ar gyfer sawl cleient adnabyddus, ac roedd fy rôl yn rhychwantu'r broses ymchwil gyfan. O gwmpasu amserlenni, llunio holiaduron, goruchwylio gwaith maes, dadansoddi data (ansoddol/meintiol), a llunio adroddiadau, ro'n i wrth fy modd yn cael ychwanegu gwerth gwirioneddol i'r cwmni.



Enw'r myfyriwr:
**Jess Davies**
Darparwr lleoliad:
**Ipsos MORI, Llundain**

**Cynnal ymchwil meintiol ac ansoddol**

**Llunio adroddiadau proffesiynol**

**Mynychu cyfarfodydd tîm, cymryd cofnodion, gwneud cyflwyniadau**

**Cysgodi clinigwyr, arbenigwyr ac aelodau eraill o'ch tîm**

**Rheoli prosiectau ac adolygu canlyniadau prosiectau**

**Cynnal adolygiadau llenyddiaeth**

**Hwyluso a chynnal gweithdai**

**Dehongli, dadansoddi a chrynhoi data**



# Yr effaith byddwch chi'n ei chael

## Drwy groesawu myfyriwr ar leoliad a chynnig rôl ystyrlon iddynt, byddwch yn cael effaith barhaus ar y genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol ym maes seicoleg.

Mae hynny gan y byddwch chi'n galluogi myfyrwyr Seicoleg:

- i wella eu sgiliau ceisio am swyddi a chyfweld, gan gynnwys llunio CV.
- i ennill profiad ymarferol yn cymhwyso eu dysgu a'u gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch gweithgareddau sefydliadol.
- i gael mewnwelediadau newydd i sut mae modd cymhwyso'r theori maen nhw wedi'i dysgu yn ymarferol.
- i wella sgiliau trosglwyddadwy amrywiol fel cyfathrebu'n ysgrifenedig ac ar lafar, arsylwi, casglu data, rheoli amser, a threfnu personol.
- i ddatblygu menter, annibyniaeth, a'r gallu i gymryd cyfrifoldeb mewn cyd-destun proffesiynol.
- i gael mewnwelediad i lwybrau gyrfa posib yn y dyfodol.

**Alla i ddim argymell lleoliad gyda Lenovo ddigon. Ro'n i'n mwynhau'r amgylchedd lle roedd pethau'n symud yn gyflym ond hefyd y perthnasau cryf wnes i eu meithrin yn y cwmni.** Yn fy swydd bob dydd, roedd gofyn i fi gyfathrebu gydag amrywiaeth enfawr o bobl yn fewnol, mewn swyddi ar wahanol lefelau, a hefyd cwsmeriaid allanol i helpu gyda phob agwedd ar y broses werthu. Roedd yn gam cyntaf ardderchog i mewn i amgylchedd gwaith, ac yn gyfle gwych i gyfrannu at lwyddiant y cwmni.

Enw'r myfyriwr: **Sally Wright**
Darparwr lleoliad: **Lenovo**



**Fe wnes i fy lleoliad gwaith MSc mewn gwasanaeth seicolegol a oedd yn cefnogi pobl a oedd wedi bod yn byw mewn gofal preswyl.**

Cefais fynychu ymgynghoriadau gyda Seicolegwyr yn y tîm, cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol a sesiynau ymarfer myfyriol, yn ogystal ag ymgysylltu â phobl ifanc a'u teuluoedd. Fe wnes i elwa'n fawr ar y cyfleoedd ar gyfer arfer myfyriol a goruchwyliaeth glinigol a oedd ar gael yn fy lleoliad. Roedd y lleoliad MSc yn hanfodol i fi allu cael fy swydd bresennol.



**Jess Davies**
Ymarferydd Arbenigol ac Uwch Weithiwr Cymdeithasol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, Gwent MyST

# **Gair gan ein** darparwyr lleoliadau

**Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda'r Ysgol Seicoleg ym Mhrifysgol Caerdydd ers rhai blynyddoedd bellach, ac mae hi wedi bod yn bartneriaeth amhrisiadwy i ni.**

Rydyn ni'n addysgu'r myfyrwyr sut i ryngweithio gyda'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi, yn ogystal â sut mae seicoleg yn gweithio mewn sefyllfaoedd 'bywyd go iawn'. Yn gyfnewid am hyn, rydyn ni'n cael aelodau tîm brwdfrydig sy'n cefnogi ein gwasanaeth, yn helpu gyda'n llwyth gwaith, ac yn rhoi golwg newydd ar bethau y gallwn ni eu hychwanegu neu eu newid i wella'r gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu.

Cymaint felly nes bod llawer o'n myfyrwyr ar leoliad yn mynd ymlaen i wneud gwaith sesiynol gyda ni yn y ddalfa neu yn y gymuned.

**Rydyn ni wedi canfod staff parhaol gwych na fydden ni wedi dod o hyd iddynt fel arall.**

**Vicki Hillier**
Rheolwr Gwasanaeth Dyfodol
Gwasanaethau Gofal ac Adsefydlu G4S

**Rydyn ni wedi bod yn croesawu myfyrwyr ar leoliad yn Nhîm Iechyd Meddwl Amenedigol Caerdydd a'r Fro ers 2015. Yn y cyfnod hwnnw, mae'r rôl wedi dod yn rhan o'r tîm, felly pan mae myfyrwyr yn dod ar leoliad gyda ni, maen nhw'n gwneud cyfraniad go iawn i'r gwasanaeth.**

Mae'r myfyrwyr sydd ar leoliad yn ein cefnogi ni i hwyluso grwpiau, sgorio, a mewnbynnu data mesur canlyniadau, llunio asesiadau, paratoi ar gyfer sesiynau llunio tîm a gwaith gweinyddol cyfarfodydd timau amlddisgyblaethol. Maen nhw hefyd wedi cyfrannu at brosiectau ymchwil a gwaith ysgrifennu i'w gyhoeddi.

Fel gwasanaeth arbenigol, rydyn ni'n gwerthfawrogi cael rhannu ein gwybodaeth gyda seicolegwyr clinigol uchelgeisiol y dyfodol, er mwyn iddyn nhw allu mynd â hyn gyda nhw i'w gyrfaoedd. Rydyn ni hefyd yn gweld bod deinameg y tîm yn elwa ar gael pobl yn ymuno â ni ar leoliad, gan ei fod yn ein cymell ni i barhau i addysgu a dysgu ac aros yn gyfredol gydag ymchwil ac arloesedd.

**Dr Jessica Williams**
Seicolegydd Clinigol
Gwasanaeth Iechyd Meddwl Amenedigol
Caerdydd a'r Fro

# **Ymarferoldeb** darparu lleoliad

Cymerwch olwg ar y canllaw cyfeirio cyflym hwn i weld beth sy'n rhan o groesawu myfyriwr ar leoliad.

### Diben

Mae lleoliadau seicoleg yn cynnig cyfle hanfodol i fyfyrwyr gael blas o weithio mewn rôl a fyddai'n addas iddyn nhw ar ôl graddio. Mae'n rhoi cyfle iddyn nhw roi eu dealltwriaeth ddamcaniaethol ar waith mewn sefyllfa byd go iawn, a gall hyn fod o fudd enfawr i sefydliadau fel eich un chi.

### Rôl

Yn ystod eu lleoliad, mae'r myfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgogol amrywiol sy'n ddefnyddiol i'r sefydliad sy'n eu croesawu. Dylai'r gweithgareddau hyn ymestyn ein myfyrwyr a darparu profiadau dysgu gwerthfawr.

Er y gallai rhai tasgau gynnwys dyletswyddau gweinyddol rheolaidd y byddai gweithiwr arferol yn eu cyflawni, ni ddylai'r rhain lenwi amser y myfyriwr, ac yn ddelfrydol ni fydd hyn yn fwy na diwrnod yr wythnos.

Mae myfyrwyr yn aml yn cysgodi gweithwyr proffesiynol yn eich sefydliad i ddysgu sgiliau sy'n ymwneud â'r swydd. Wrth iddyn nhw fagu hyder, byddan nhw'n raddol yn cymryd mwy o gyfrifoldebau heb gymorth, gan gymryd rhan weithiau mewn prosiectau hirdymor o'r dechrau i'r diwedd. Mae cael cyfle i fyfyrio neu ddadansoddi canlyniadau eu gwaith yn werthfawr hefyd. Rydyn ni'n annog y math hwn o gyfranogiad ymarferol gan ei fod yn werth chweil i'n myfyrwyr ac yn gallu arwain at ganlyniadau defnyddiol iawn i chi hefyd.

### Lleoliad

Mae rhai myfyrwyr yn hoffi aros yn agos i'w cartref, tra bod eraill yn awyddus i archwilio'r byd, felly gellir cynnal y lleoliad unrhyw le yng ngwledydd Prydain neu dramor.

> **Gwnes i fy lleoliad yng Nghlinig Caswell, sy'n Uned Ddiogel Ganolig ym Mhen-y-bont ar Ogwr.** Cefnogais i fy Seicolegydd Clinigol goruchwyliol gydag asesiadau cleifion, fformwleiddiadau seicolegol, gweinyddu a sgorio profion seicometrig, prosiectau archwilio, a gwaith grŵp. Cefais gyfle i gysgodi aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaethol a chael mewnwelediad amhrisiadwy i rôl Seicolegydd Clinigol yn y GIG.
>
> Fe wnes i hefyd feithrin gwybodaeth, hyder, ymwybyddiaeth o'r proffesiwn, a pherthnasau hirdymor – yn wir, mae'r un goruchwyliwr yn dal i fod yn fentor arna i ers dros ddeng mlynedd! Cadarnhaodd y lleoliad fy mhenderfyniad i ddilyn gyrfa mewn Seicoleg Glinigol.



Enw: **Dr Sophia Chambers**

Darparwr lleoliad: **Clinig Caswell**

Eich rôl bresennol **Seicolegydd Clinigol**



## Hyd ac oriau

Ar gyfer ein myfyrwyr BSc trydedd flwyddyn, mae'n rhaid i'r lleoliad bara o leiaf 30 wythnos yn dechrau tua diwedd mis Medi (fel arfer maen nhw'n para 36 wythnos yn cynnwys toriad dros y Nadolig a'r Pasg).

Mae lleoliadau MSc yn rhedeg am 12 wythnos rhwng mis Mai a mis Medi. Os yw eich sefydliad chi'n dawel iawn yn ystod mis Awst, gallwch gynnig lleoliad o fis Mai tan fis Gorffennaf ac mae'n rhaid i bob myfyriwr MSc gwblhau eu lleoliad erbyn dechrau mis Medi.

Yn gyffredinol, bydd myfyrwyr yn disgwyl gweithio o ddydd Llun i ddydd Gwener, o 9am tan 5pm, ond mae lle i hyblygrwydd.

Mae hi hefyd yn bosib y bydd gan rai myfyrwyr amgylchiadau penodol yr hoffen nhw i chi eu hystyried, er enghraifft efallai y bydd ganddyn nhw gyfrifoldebau gofalu. Mae'n well trafod eu gofynion cyn cadarnhau'r lleoliad.

Os oes gennych gyfnod penodol o amser yr hoffech chi groesawu myfyriwr, neu oriau penodol yr hoffech chi iddyn nhw weithio, gallwch ddatgan hyn yn eich hysbyseb ar gyfer y lleoliad neu yn eich llythyr gwahodd.

## Goruchwyliaeth

Fel arfer, caiff myfyrwyr eu goruchwylio gan seicolegwyr proffesiynol siartredig Cymdeithas Seicolegol Prydain. Serch hynny, rydyn ni'n deall bod lleoliadau'n digwydd mewn mannau amrywiol, felly gall unrhyw uwch aelod o staff sydd wedi'i gymhwyso'n briodol wasanaethu fel goruchwyliwr.

Mae gwiriadau rheolaidd yn hanfodol ac mae'n rhaid i fyfyrwyr allu cael mynediad at eu goruchwyliwr os oes angen. Mae rhai myfyrwyr yn gweithio gyda'u goruchwyliwr yn ddyddiol, ac eraill yn llai aml, ond dylent bob amser gael o leiaf hanner awr yr wythnos gyda'i gilydd.

Bydd ein goruchwylwyr prifysgol hefyd yn ymgysylltu â chi a'n myfyrwyr yn gynnar i sicrhau profiad llyfn i bawb. Gall y cyfarfodydd hyn fod yn rhai wyneb yn wyneb neu ar-lein, yn dibynnu ar argaeledd pawb, eu dewisiadau a logisteg.

## Hyfforddiant

Os gallwch gynnig hyfforddiant i fyfyriwr pan fyddan nhw gyda chi, gall hyn fod yn fanteisiol iawn, ond nid yw'n hanfodol.

## Adrodd

Fel darparwr lleoliad, ni fydd gofyn i chi gyflwyno adroddiadau, ond byddwn ni'n gofyn i chi ateb arolygon. Bydd eich cyfarfodydd rheolaidd gyda'n goruchwylwyr prifysgol hefyd yn rhoi cyfle i chi adrodd a r lafar ar y lleoliad.

Mae disgwyl i'n myfyrwyr ysgrifennu adroddiad myfyriol ar ddiwedd eu lleoliad, a fydd yn cyfrannu at eu hasesiad gradd. Yn ogystal, gallai myfyrwyr BSc wneud cyflwyniadau llafar, gan gynnig mewnwelediadau i fyfyrwyr y dyfodol a staff academaidd.

### Gwyliau a salwch

Ar gyfer lleoliadau BSc, nid yw'r cyfnod 30 wythnos yn cynnwys gwyliau neu salwch hir. Er mwyn cyd-fynd â dyddiadau tymor y brifysgol, dylai'r lleoliad bara 36 wythnos, gan roi seibiant i'r myfyrwyr dros y Nadolig a'r Pasg. Serch hynny, nid oes rhaid i fyfyrwyr ddilyn gwyliau'r brifysgol, a gallwch ofyn i fyfyrwyr ddilyn polisi hawl gwyliau blynyddol eich sefydliad.

Mae lleoliadau MSc yn cynnwys 30 awr yr wythnos, gyda 7.5 awr wedi'i neilltuo i astudio annibynnol. Ni chymerir gwyliau blynyddol yn ystod lleoliadau MSc fel arfer, ond gellir gwneud trefniadau rhyngoch chi a'r myfyriwr.

Ar gyfer salwch neu anaf yn ystod lleoliad, dylech ddilyn eich gweithdrefnau safonol a rhoi gwybod i ni os yw'r myfyriwr yn absennol am gyfnod hir.

### Canllawiau Iechyd a Diogelwch

Er mwyn sicrhau diogelwch pob myfyriwr sydd ar leoliad, mae gennym ofynion iechyd a diogelwch safonol, felly cyn i fyfyriwr ddechrau ar eu lleoliad byddwn ni'n gofyn i chi gwblhau rhestr wirio iechyd a diogelwch. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gofynion hyn, cysylltwch â **psych-placement@caerdydd.ac.uk**

### Yswiriant

Rydyn ni'n cynghori'n gryf y dylai pob lleoliad gynnig contract anrhydeddus i fyfyrwyr. Mae hyn yn sicrhau eu bod wedi'u cynnwys yn eich yswiriant atebolrwydd. Yn ogystal, dylai myfyrwyr sy'n rhan o asesiadau neu sy'n gweithio gyda chleientiaid fod wedi'u cynnwys o dan yswiriant indemniad gan Gymdeithas Seicolegol Prydain.

I fyfyrwyr sy'n gweithio gyda phlant, oedolion sy'n agored i niwed, neu gleientiaid sy'n peri risg iddyn nhw'u hunain neu i eraill, mae gennym ganllawiau diogelwch penodol y gallwn eu darparu.

## Talu

Nid yw ein myfyrwyr yn derbyn cyllid ychwanegol yn ystod eu lleoliad, felly rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n darparu rhyw lefel o gefnogaeth ariannol. Gallai hynny gynnwys costau teithio, cyfraniad at fwyd a diod, neu lwfans dillad ac ad-daliad am adleoli.

Mae rhai darparwyr lleoliadau'n dewis talu ein myfyrwyr am y sgiliau, y doniau a'r creadigrwydd maen nhw'n ei gynnig i'r sefydliad, a chaiff hyn ei werthfawrogi gan y myfyrwyr.

Gall darparu cydnabyddiaeth ariannol fynd yn bell i ddenu myfyrwyr a rhoi hwb i'w hunan-werth wrth iddyn nhw wneud cyfraniad cadarnhaol i'ch tîm.

“ **Gweithiais i fel Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol yn Cymorth i Fenywod Caerdydd, lle bues i'n darparu cymorth emosiynol ac ymarferol un i un i oroeswyr cam-drin domestig.** Roedd gen i lwyth achos o hyd at ddeg cleient ac ro'n i ar ddyletswydd un diwrnod yr wythnos i ddelio gyda chyngor, galwadau proffesiynol a menywod a fyddai'n dod aton ni mewn argyfwng. Ro'n i'n mwynhau'n arbennig gweld sut roedd therapi ymddygiadol gwybyddol yn helpu cleientiaid i ddatblygu dros raglen ddeuddeg wythnos. Drwy fy lleoliad, dysgais sut i weithio o dan bwysau dwys, ac er ei bod yn heriol iawn ar adegau, roedd hefyd yn werth chweil. Ro'n i'n mwynhau gwneud gwahaniaeth, a bydd fy lleoliad gwaith yn sicr o fy helpu yn fy ngyrfa yn y dyfodol.

Enw'r myfyriwr:
**Sian Anderson**
Darparwr lleoliad:
**Cymorth i Fenywod Caerdydd**


Clinical Research Room

# Y broses ymgeisio a dethol

## Rydyn ni am iddi fod mor hawdd â phosib i chi groesawu myfyriwr ar leoliad. Dyma sut mae'n gweithio:

### Sut mae myfyrwyr yn gwneud cais am leoliad gyda chi

Os ydych chi wedi cael y ddogfen hon gan fyfyriwr yr hoffech chi eu croesawu ar leoliad, mae croeso i chi neidio'r rhan hon. Ond os hoffech wahodd myfyrwyr i wneud cais i wneud lleoliad gyda chi, dyma sut mae'n gweithio:

Byddwch chi'n darparu hysbyseb i roi gwybod i'n myfyrwyr eich bod chi'n gobeithio cynnal lleoliad. Peidiwch â phoeni, gallwn ni gynnig arweiniad neu helpu i'w chreu gyda chi.

**Ar gyfer Myfyrwyr BSc:** Fel arfer mae dwy neu dair rownd ymgeisio pan fydd myfyrwyr yn gwneud cais am leoliad. Mae'r rownd gyntaf ym mis Rhagfyr a'r ail ym mis Chwefror, ac mae pob lleoliad yn dechrau ym mis Medi.

Ym mhob rownd, byddwn ni'n anfon swp o geisiadau myfyrwyr atoch chi, a fydd yn cynnwys llythyr eglurhaol a CV ar gyfer pob ymgeisydd. Petai'n well gennych i fyfyrwyr lenwi ffurflen benodol, rhannwch y ffurflen gyda ni, neu rhannwch ddolen i'ch ffurflen ar-lein ar eich hysbyseb lleoliad. Wrth gwrs, os oes gennych broses recriwtio eich hun, gall y myfyrwyr wneud cais uniongyrchol i chi.

**Ar gyfer myfyrwyr MSc:** Mae'r rownd gyntaf o geisiadau ym mis Rhagfyr, gyda'r ail rownd i ddilyn ym mis Chwefror, yn barod i ddechrau yn yr haf.

Mae'r broses yr un fath ar gyfer myfyrwyr BSc, gan eich galluogi chi i groesawu myfyrwyr BSc ac MSc yn yr un flwyddyn.

### Sut byddwch chi'n dewis eich myfyrwyr

Fel y nodwyd uchod, byddwn ni'n anfon swp o geisiadau myfyrwyr atoch chi i'w hystyried ar ôl pob rownd ymgeisio.

Mae'n bwysig nodi, pan fyddwn ni'n anfon y rhain atoch chi, nad ydym yn gwneud argymhellion nac yn cymeradwyo eu haddasrwydd ar gyfer eich lleoliad. Rydych chi mewn sefyllfa llawer gwell na ni i benderfynu a ydyn nhw'n addas i chi.

Fel rhan o'ch asesiad, dylech gynnal gwiriadau priodol ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio yn eich sefydliad, fel cofnodion troseddol ac unrhyw wiriadau iechyd meddwl corfforol a meddyliol. Mae hyn yn arbennig o hanfodol i leoliadau sy'n cynnwys tasgau sy'n seicolegol feichus neu waith gyda phobl sy'n agored i niwed. Rydyn ni'n ymddiried yn eich crebwyll proffesiynol, wedi'i ategu gan eich mesurau sgrinio safonol, i asesu addasrwydd yr ymgeiswyr ar gyfer rolau o'r fath.

**Ar ôl i chi ddewis eich myfyriwr, byddwch chi'n anfon llythyr neu e-bost gwahoddiad iddyn nhw yn amlinellu telerau'r lleoliad yr hoffech chi ei gynnig.**

**Mae dewis yr ymgeisydd cywir yn rhan bwysig o'r broses leoliadau** felly cwblhewch unrhyw wiriadau neu sgrinio angenrheidiol cyn derbyn myfyriwr neu leoliad. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn canfod myfyriwr sy'n gydnaws â'ch sefydliad.

**Rydyn ni yma i wneud y broses mor syml â phosib, felly mae croeso i chi gysylltu ar unrhyw adeg.**

## Sut i ddod yn ddarparwr lleoliad myfyrwyr

**1**
**Cysylltu â ni** a rhoi gwybod eich bod chi'n awyddus i groesawu myfyriwr ar leoliad.

**2**
**Darparu hysbyseb** gyda manylion y lleoliad yr hoffech ei gynnig.

**3**
**Derbyn** swp o geisiadau myfyrwyr **mewn** ymateb i'ch hysbyseb.

**4**
**Dewis myfyriwr.** Anfon llythyr cynnig lleoliad iddyn nhw (ar ôl cynnal y gwiriadau angenrheidiol).

# Y camau nesaf

Os ydych chi'n awyddus i ddod yn ddarparwr lleoliad myfyrwyr seicoleg, byddwn ni'n falch o glywed gennych chi.

Gallwn roi gwybod i'n myfyrwyr am y cyfle rydych chi'n ei gynnig er mwyn iddyn nhw allu gwneud cais i ddod atoch chi ar leoliad.

Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw anfon e-bost at ein Tîm Lleoliadau Seicoleg ac fe wnawn ni weithio gyda chi i drefnu popeth.

**psych-placement@caerdydd.ac.uk**

**Yn ystod fy lleoliad, fe fues i'n gweithio gyda seicolegwyr clinigol i feithrin fy sgiliau ymchwil, cwnsela, dylunio gwasanaethau a hwyluso gweithdai.** Dysgais sut i fod yn rhan o dîm seicoleg. Rydw i bellach yn gweithio i elusen newid ymddygiad ym maes cynaliadwyedd, a dim ond trwy'r profiadau a'r sgiliau ges i drwy fy mlwyddyn ar leoliad y cefais i'r swydd hon.



Enw'r myfyriwr:
**Jack Hodgkiss**
Darparwr lleoliad:
**Canolfan Ganser Felindre**

**Ymhlith rhai o'r sefydliadau sydd wedi elwa ar groesawu myfyriwr o Brifysgol Caerdydd ar leoliad mae:**

- Gweithredu dros Blant
- Airbus
- Bernardo's
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Deloitte
- G4S
- Gwasanaeth Carchardai EF
- Hewlett-Packard Inc.
- L'Oreal
- Mind
- Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl (NCMH)
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Gwasanaeth Seicoleg Addysgol Rhondda Cynon Taf
- Tata Steel
- Unilever
- Canolfan Ganser Macmillan Ysbyty Coleg y Brifysgol (UCH)
- Prifysgol Iâl
- Ysgol y Deri




**Yr Ysgol Seicoleg**
Prifysgol Caerdydd
Adeilad y Tŵr
70 Plas y Parc
Caerdydd CF10 3AT

Cysylltwch unrhyw bryd:
**psych-placement@caerdydd.ac.uk**


**Pennawd ar gyfer y llun:**
Myfyrwyr ar leoliad: Benny Wu, Frankie Rogers, Elspeth McNicol a Ellie Varney yn Ysgol Headlands lle buon nhw'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a oedd yn wynebu heriau cymdeithasol, ymddygiadol ac emosiynol.